# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Tremeirchion

**Yr Hen Ysgol**
**Tremeirchion**
**LL17 0UN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Tremeirchion

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Tremeirchion |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Sesiynnol |
| Person(au) cofrestredig | Sylvia Ann Edwards |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Sylvia Edwards<br>Rhian Edwards<br>Helen Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 4 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun - Gwener 12.45 - 15.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 07/02/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/11/2010 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/01/2022 |
| Mae ychydig o blant yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd penagored sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu eu diddordebau a mynegi eu hunain yn greadigol

A2 Rhannu'r Teclyn Archwilio Rheoli Haint Mewn Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar efo'r ymarferwyr i gyd

A3 Blaenoriaethu a gweithredu yn effeithiol ar feysydd i'w gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae llais cryf gan y plant ac maent yn gwneud penderfyniadau deallus. Maent yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal chwarae i'r llall gan ddewis teganau ac offer priodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau aeddfed iawn am eu gweithgareddau. Er enghraifft wrth ofyn am help i agor y caead er mwyn edafu disgiau, ac wrth chwilio am gynhwysyddion a photeli bach yn y twba dŵr y tu allan. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn mynd at y blychau o dan y byrddau sain a basgedi s'yn cynnwys pethau naturiol o'u gwirfodd. Mae llawer o blant yn arddangos cyffro a miri wrth drafod digwyddiadau adref yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn ddyddiol ac mae bron pob un o'r plant yn gwybod bod amser eistedd mewn grwp yn dilyn amser tacluso. Mae hwyl a chwerthin afieithus ymysg y plant a'r ymarferwyr yn nodwedd annatod o'r lleoliad. Mae llawer o'r plant yn arddangos diddordeb di-flino a chyffro dibendraw wrth chwarae a dysgu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio cyfeillgarwch gydag eraill ac yn cyd-chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Maent yn cyd weithredu ac yn cymryd tro yn briodol. Er enghraifft, wrth aros tro i gogio derbyn bwyd yn y tŷ bach twt.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth o dda a drwg ac yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn dysgu i barchu eu hamgylchfyd trwy ailgylchu deunyddiau. Er enghraifft wrth ail ddefnyddio poteli gwag i adeiladu tŷ ar gyfer eirth y tu allan. Mae'r plant yn dod yn fwyfwy annibynnol ac yn dechrau tywallt eu diodydd eu hunain amser byrbryd. Mae chwarae gyda llestri go iawn, tynnu eu sgidiau a gwisgo sliperi yn y tŷ bach twt yn helpu'r plant i ddechrau cymryd cyfrifoldeb ac yn hybu eu hannibyniaeth.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i ddiogelwch ac iechyd y plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a diweddar. Maent yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol y lleoliad ac wedi mynychu hyfforddiant ar gyrsiau priodol fel cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau da iawn ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau. Cynigir amrywiaeth da o fwyd iach a ffrwythau i'r plant adeg byrbryd er mwyn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y plant ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gweithgareddau corfforol da, fel symud a dawnsio a chyfleoedd rheolaidd yn eu gardd tu allan i redeg a chicio pel. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y byrddau a'r ardaloedd yn lân. Fodd bynnag

nid yw pob un yn ymwybodol o'r ddogfen Teclyn Archwilio Rheoli Haint Mewn Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar.

Defnyddia’r ymarferwyr strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ac maent yn delio ag unrhyw anniddigrwydd yn effeithiol ac mewn ffordd teg a phositif. Maent bob amser yn garedig ac addfwyn wrth siarad â’r plant ac mae hyn yn arwain at awyrgylch gadarnhaol a hamddenol. Mae ymarferwyr yn atgoffa’r plant yn rheolaidd o reolau y lleoliad er enghraifft, i beidio rhedeg yn yr adeilad, ac yn eu hysgogi i gyd-chwarae, rhannu a chymryd tro. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn aml ac yn atgyfnerthu eu hunanhyder, er enghraifft wrth rhoi sticeri am dacluso.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant a’u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’u hanghenion, eu galluoedd a’u diddordebau unigol. Maent yn darparu amgylchedd ofalgar ac yn blaenoriaethu anghenion y plant gan wybod pryd i helpu a phryd i gadw draw. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant newydd yn derbyn cefnogaeth ychwanegol er mwyn ymgartrefu'n gyflym. Hyrwydda ymarferwyr gydraddoldeb ac amrywiaeth gan sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i adnoddau a gweithgareddau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog,  sydd wedi’u seilio ar themâu perthnasol. Mae’r profiadau hyn yn hybu cynnydd a datblygiad y plant yn briodol, ac yn ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. Er enghraifft, i gyd-fynd â thema’r ‘Gaeaf’ mae’r plant yn arbrofi gyda rhew a dŵr cynnes. Mae hyn yn ennyn eu chwilfrydedd, ac yn cynnig cyfle i drafod eu synhwyrau ac ymestyn eu hiaith. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr yn cynllunio’n ddigon bwriadus bob tro i adeiladu’n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau corfforol mân a mawr y plant. Er enghraifft, mae’r plant yn dod yn fwy hyderus a medrus yn eu gallu i drin offer bach wrth ddefnyddio siswrn yn annibynnol a gosod mwclis ar linyn.   Mae pwyslais buddiol ar ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd y plant wrth iddynt chwarae yn yr ardaloedd. Mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i gyflwyno ac ymestyn iaith y plant trwy gydol y sesiwn. Maent yn darparu llyfrau perthnasol i anghenion y plant a gwneud defnydd cyson o ganeuon a rhigymau’.

Maent yn cynllunio cyfleoedd priodol i’r plant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Trwy gynnig cyfleoedd perthnasol, mae’r ymarferwyr yn hybu datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol, er engrhaifft dysgu am Santes Dwynwen trwy ddarllen stori a chael trafodaeth. Mae gofalu am blanhigion y lleoliad yn dechrau datblygu ymdeimlad o ryfeddod am y byd o’u cwmpas ymysg y plant.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Maent yn adnabod y plant yn dda, ac yn eu cefnogi’n dawel ac amyneddgar i fynegi eu hunain trwy ystumiau yn ogystal ag ar lafar. Maent bob un yn fodelau iaith da ac yn siarad yn eglur, gan ddefnyddio iaith raenus. Mainteisant ar bob cyfle i fwydo geirfa newydd

wrth i'r plant chwarae. Ar y cyfan, mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant, gan ddisgwyl iddynt ymddwyn yn briodol a chanolbwyntio yn ôl eu hoed a'u gallu. Mae ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu yn briodol wrth i'r plant chwarae. Fodd bynnag, nid oes cydbwysedd digon da rhwng gweithgareddau wedi'u hysgogi gan blant a gweithgareddau wedi'u cyfeirio gan oedolion bob tro. Ambell waith, nid yw'r gweithgareddau yn ddigon pen agored i hybu medrau creadigol y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae yna ormod o bwyslais ar y cynnyrch terfynol yn hytrach na'r broses greadigol wrth i'r plant addurno siâp 'Sioni Rhew'.

Mae'r ymarferwyr yn trafod cryfderau'r plant a'r meysydd i'w gwella yn anffurfiol yn rheolaidd. Mae hyn yn eu galluogi i hyrwyddo datblygiad unigolion yn briodol a naturiol. Maent yn cadw cofnod addas o'r hyn mae'r plant yn cyflawni mewn llyfrau proffil unigol, ac yn rhannu'r rhain gyda'r rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn cofnodi'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n effeithiol i sicrhau bod pob plentyn yn gwneud y cynnydd gorau.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r amgylchedd yn hynod ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Sicrheir bod yr asesiadau risg a gwiriadau diogelwch yr offer tân a thrydanol yn gyfredol. Mae'r lleoliad yn cael ei lanhau'n ddyddiol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd yn llwyddiannus er mwyn hyrwyddo annibyniaeth ac annog datblygiad y plant. Mae'r ardaloedd chwarae ysgogol fel ardal chwarae rôl, a byd bach yn hyrwyddo eu dysgu yn effeithiol. Ceir amrywiaeth eang o adnoddau ymhob ardal, i gyd o fewn cyrraedd rhwydd y plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a ddiddorol a cheir arddangosfeydd niferus gyda llawer ohonynt o fewn cyrraedd y plant. Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ddarpariaeth allanol ac yn cynllunio cyfleoedd chwarae bwriadus i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn dysgu am liwiau wrth ymchwilio pa bel sy'n cyfatebu i'r beipen.

Ceir cyflenwad addas o adnoddau o ansawdd da, sy'n briodol i oedran a datblygiad y plant. Er enghraifft mae'r cyfarpar newydd fel gêm bysgota ac ardal gyfrifiadol newydd yn cynnal diddordeb y plant wrth iddynt chwarae. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant ac maent yn cael eu storio mewn bocsys lefel isel gyda labeli Cymraeg a lluniau i alluogi'r plant i wneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae. Ceir dewis da o adnoddau i blant ddatblygu'u hymwybyddiaeth o ailgylchu a chynaliadwyedd. Er enghraifft wrth ddefnyddio hen lestri ac offer yn y tŷ bach twt a chreu bwgan brain tu allan.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae arweinydd y lleoliad yn gosod disgwyliadau uchel ohoni'i hun a'i chyd weithwyr ac yn arwain mewn modd cadarn a thawel. Mae'r arweinydd yn cynnal ethos gadarnhaol a Chymreig ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth. Mae hi'n canolbwyntio ar sicrhau cyfleoedd pwrpasol a pharhaus i blant ddatblygu eu medrau Cymraeg

llafar.  Mae’r arweinydd yn deall pwysigrwydd cydweithio ac yn anelu at sicrhau darpariaeth o'r safon uchaf. Gwerthfawrogir pob plentyn ac ymarferydd ar draws pob elfen o'r ddarpariaeth.

Mae’r datganiad o ddiben yn glir ac yn cynnig darlun cywir o’r lleoliad. Mae’r lleoliad yn bodloni’r safonau gofynnol cenedlaethol ac yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd. Mae’r arweinydd yn hybu arferion diogel ac yn dilyn canllawiau covid 19 y llywodraeth yn ofalus, gan sicrhau bod y plant yn mwynhau profiadau dysgu addas wrth gadw’n ddiogel.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn cynnal trafodaethau anffurfiol er mwyn nodi meysydd sydd angen eu gwella ac yn mynd i'r afael â’r rhain yn brydlon. Er enghraifft, maent wedi gwella’r ddarpariaeth ar gyfer ymestyn medrau corfforol y plant trwy brynu offer newydd. Mae trafodaethau mwy ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth briodol o farn rhanddeiliaid, yn dechrau cefnogi newidiadau mwy strategol. Maent yn gweithredu’n addas ar rai agweddau gan gadw cofnod bras a defnyddiol o’u cynnydd. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi pa gamau y maent am eu gweithredu er mwyn gwella'r ddarpariaeth, nac yn gwerthuso cynnydd yn ddigon manwl. O ganlyniad, er bod y plant yn elwa o’r cynnydd cyson mewn rhai agweddau o’r ddarpariaeth, nid oes digon o gynnydd tuag at welliannau eraill.

Mae’r rheolaeth ar ymarferwyr ac adnoddau yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr brofiad a chymwysterau priodol ac maent yn deall eu cyfrifoldebau’n dda. Gwneir defnydd effeithiol o gyllid gan ddarparu cyflenwad addas o adnoddau o safon. Mae hyn yn cynnwys cyflenwad o lyfrau deniadol o bob math sy’n cefnogi datblygiad y plant.

Mae’r arweinydd yn gwneud yn fawr o bartneriaethau buddiol i gefnogi gwaith y lleoliad. Mae’n gweithio’n effeithiol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol i hybu dysgu a lles y plant. Mae’r arweinydd yn gwneud defnydd da o’r adnoddau mae’r Mudiad Meithrin yn darparu. Sefydlir perthynas gref gyda rhieni a gofalwyr, drwy rannu gwybodaeth am waith y lleoliad a datblygiad y plant yn rheolaidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/03/2022